Chwefror 2016 **Rhifyn 244**

a ni wrth borth y misoedd
yn ffyddiog am a ddaw,
ar drothwy'r daith anesgor
gafaelwn yn Ei law.

John Roderick Rees

Wythnos cofio plentyndod *Facebook*

Gêm ddifyr i chi - mae *Facebook* wedi bod yn gwahodd pobl i ddangos lluniau ohonynt yn blentyn - pwy o aelodau'r capel tybed ydi'r plant bach annwyl yma? Atebion ar dudalen 29.

GAIR Y GWEINIDOG

Pa mor ddiweddar fyddwch chi'n cyfarch unigolion gyda'r geiriau 'Blwyddyn Newydd Dda'? Mae o'n gyfarchiad sy'n gweddu'n naturiol i wythnosau cyntaf mis Ionawr ond efallai'n colli ei werth gydag amser. Ychydig ddyddiau'n ôl fe gwrddais â rhywun nad oeddwn wedi ei weld ers cyn y Nadolig ac yn naturiol ddigon fe'i cyfarchais gyda'r geiriau "Blwyddyn Newydd Dda" a'r ateb dderbyniais oedd "Pa flwyddyn?" Ia, mae hi bellach bron yn fis Chwefror a phrofiadau a bendithion y Nadolig yn ddim byd mwy nag atgofion. Er hynny y mae fy nymuniadau i chi fel aelodau yr un mor ddidwyll a phetaent wedi eu datgan yn ystod oriau cynta'r flwyddyn. Wrth ysgrifennu'r ychydig eiriau yma, 'rwy'n ceisio osgoi yr arfer traddodiadol o ddoethinebu ynglŷn ag amser a phwysigrwydd amser ar yr adeg arbennig yma o'r flwyddyn; mae'r cyfan yn wybyddus i ni a 'does yna ddim byd newydd i'w ddweud.

Yn hytrach ac efallai'n wahanol i'r arfer 'rwyf am fanteisio ar y gofod yma yn *Perthyn* i feddwl am yr hyn sy'n digwydd yn ystod y mis a'r misoedd sydd i ddod. Geiriau sy'n ymddangos yn Llyfr y Datguddiad yw'r geiriau syml 'Wele yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd!'. Mae nhw'n eiriau mewn cyd-destun penodol, gweledigaeth ym mhatrwm syniadaeth apocolyptaidd Iddewig gyda'r pwyslais ar y cyflawnder yna sy'n dod i fod ym mherson a gwaith Crist, ond mae nhw hefyd yn eiriau y gallwn eu deall mewn ysbryd cyffredin. Dywedant fod Duw yn ei berthynas â'r greadigaeth ac felly bywyd wastad yn ein harwain i sefyllfaoedd newydd, i brofiadau newydd, i weithgaredd newydd ac i fendithion newydd. Dyna mewn gwirionedd sy'n achosi i ni dyfu mewn adnabyddiaeth a dealltwriaeth, yn bersonol ac yn gynulleidfaol gan rhoi bod i fesur o aeddfedrwydd yn ein perthynas â'n gilydd wrth i ni adnabod ffyrdd Duw mewn ffydd ac mewn gweithredoedd. Mewn un ystyr mae yna wastad barhad o'r hyn sydd wedi dechrau ond mae yna bethau newydd hefyd ac arwyddion fel yna sydd i'w gweld yn ein bywyd fel eglwys ar ddechrau blwyddyn newydd.

Wedi cyfnod o drafod a chynllunio gofalus yr ydym wedi dechrau ar batrymau newydd i'r oedfaon gyda'r pwyslais ar addoliad fel gweithred gyfansawdd. Nid wyf am ymhelaethu yn y fan yma ond hoffwn nodi y byddwn yn plethu i'r cyfan y defnydd o dechnoleg ynghyd â phwysigrwydd cyfryngau amrywiol ac fe fydd i'r gynulleidfa fwy o gyfleon i gyfranogi yn y weithred o gydaddoli. Y mae addoliad yn galon ein bywyd fel eglwys gyda'r pwyslais ar gael ein hadeiladu yn y ffydd - gweithred yw addoliad sy'n cael ei dwyn i gyflawnder yn ein bywyd ac yn ein gwasanaeth. Ac felly mae'r misoedd diwethaf yma wedi rhoi cyfle i ni ystyried o'r newydd ym mha fodd y gallwn wasanaethu'n gilydd. Fe fyddwn yn ail edrych ar ein patrymau bugeiliol gan geisio darparu gofal fydd yn unol ag anghenion aelodau unigol ac fe fyddwn yn ceisio adnabod y mannau hynny fydd yn galw am ddarpariaeth arbennig gan gynnig i ni gyfleon newydd yn ein bywyd a'n tystiolaeth. Yn y cyd-destun yma rhaid sôn yn olaf am y Morlan. Y mae'r erthygl gan Carol yn esbonio'r datblygiadau diweddaraf gyda'r pwyslais ar greu gofod cyffyrddus fydd gobeithio yn gyfrwng i hybu'r

pwysigrwydd o gymdeithasu a thrafod a dod i adnabod. Mae'r pethau hynny yn rhan o fywyd a phwrpas y Morlan ond mae'r Morlan yn llawer mwy na hynny. Nid rhywbeth ar wahân i fywyd y Morfa yw'r ganolfan ond yn hytrach rhan allweddol o'n bywyd a'n tystiolaeth sy'n galw am ein gofal, ein gweledigaeth a'n cyfraniad. Felly, beth am wneud 2016 yn flwyddyn o gyfleon ac o gyfraniad a sylweddoli o'r newydd gwerth ein bywydau a'n gallu yng ngolwg Duw ac yng ngolwg ein gilydd?

Mae'r Wyau Pasg yn y siopau!

Bendith,
Eifion

Salwch

Os oes salwch ymhlith aelodau'r Morfa mae'n bwysig rhoi gwybod i'r ymwelesau, y blaenoriaid neu'r gweinidog. Mae hynny hefyd yn wir am unrhyw wybodaeth bwysig arall.

Gair o Ddiolch

Yn ystod misoedd olaf 2015 buom yn casglu at Gymorth Cristnogol mewn gwasanaethau arbennig. Derbyniwyd £195 yn y gwasanaeth diolchgarwch a £429.91 yng ngwasanaethau tymor y Nadolig, i'w hychwanegu at y £920 a gasglwyd trwy Bara i'r Byd, cyfanswm o £1,544.91. Trosglwyddwyd £1,550 i Gymorth Cristnogol. Diolch i chi am eich haelioni.

Newyddion

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau

- i Garmon a Hannah Gruffudd ar enedigaeth Lleuwen Mair, chwaer i Elliw Swyn

- i Huw a Gill Beverley-Smith ar enedigaeth Gruffydd David Llŷr, ŵyr i Llinos a Beverley Smith

- i Steffan a Debra Job ar enedigaeth Anna Rachel, brawd i Ben (Owain Benjamin) a gor-ŵyr i Mrs. Gwen Job

- hefyd i Gwion Morgan Jones ar ennill yr ail wobr yng nghystadleuaeth cerddorion ifanc Clwb Rotari Aberystwyth

- ac i Mrs Gwenllian Lloyd sydd wedi dathlu ei phen blwydd yn 105 oed yng Nghartref Cwmcynfelin.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau

at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf sef Mrs Linda Williams, Ann Jenkins, Eirwyn James a Beverley Smith. Mae Mrs Nancy Lovatt wedi dychwelyd adref i Maes Gogerddan ar ôl treulio cyfnod yng Nghartref Tregerddan

hefyd i Joan Jones, Maesceinion sydd wedi symud i gartref Pennal View ym Mlaenpennal wedi cyfnod yn Ysbyty Bronglais.

Cofiwn hefyd am ein haelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi neu mewn cartrefi preswyl.

Cydymdeimlwn yn ddwys â

- Glenys James ar farwolaeth ei phriod, Mr Ieuan James, Erw Goch Waunfawr
- Jim O'Rourke ar farwolaeth ei dad, Mr Leon O'Rourke Hwlffordd – tad-yng-nghyfraith i Helen a thadcu i Cari ac Alaw
- Megan Hughes ar farwolaeth ei mam, Mrs Glenys Lloyd, Llanbedr Pont Steffan – mam-yng-nghyfraith i Wyn a mamgu Dylan a Gwydion
- Nia Henson ar farwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith sef Mr Sam Evans, Aberdesach, Clynnog Fawr
- Mary Thomas ar farwolaeth ei modryb, sef Mrs Nan James, Castellnewydd Emlyn.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu y diweddar Mrs Glenys Davies, Coedlan Iorwerth.

Dymunwn yn dda i

i Nia Lowri a Phil Davies, Cari, Lili ac Alys yn eu cartref newydd yn Cae Bach y Rhiw, Rhydyfelin.

Yr Ysgol Sul

Diolch i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth i waith yr Ysgol Sul ac a fu'n gysylltiedig â threfniadau'r Gwasanaeth Nadolig a'r parti.

Bore Sul – ***Chwefror 7fed am 10 o'r gloch***
Gwasanaeth Teuluol a Chymun y Teulu

Dydd Sadwrn, Mawrth 5ed: Parêd Gŵyl Dewi

Bore Sul, Mawrth 6ed am 10 o'r gloch – Gwasanaeth Unedig

Chwefror 25ain 2-4 o'r gloch yn Neuadd Gymuned Waunfawr
Cyfarfod arbennig o dan nawdd Cytun Waunfawr

Siaradwr Gwadd: Mr Arfon Jones, Caerdydd (Gobaith i Gymru a Beibl.net)

Croeso cynnes i bawb

Cofio Mrs Glenys Davies

Un o bobl Aberystwyth oedd Mrs Glenys Davies, wedi ei geni a'i magu yn y tŷ a fu'n gartref iddi trwy gydol ei hoes. A hithau'n dal yn ifanc profodd dair ergyd drom trwy golli ei thad, ei mam a'i chwaer mewn ychydig flynyddoedd i'w gilydd. Gallwn ond dychmygu effaith hynny ar ei bywyd a'i theimladau. Yn ychwanegol, yr oedd ganddi broblemau clyw ond ni fu hyn yn rhwystr mewn unrhyw ffordd. Wedi gadael ysgol, treuliodd gyfnodau gyda'i theulu yn Llundain. Bu'n rhan o'r bywyd Cymreig yn y ddinas honno ac mi'r oedd capel Jewin yn ffocws i'r cyfan. Ymhen amser dychwelodd i Aberystwyth ac aeth i weithio i gaffi *Ward's* a bu'r gwaith wrth fodd Glenys gan ei bod yn mwynhau cyfarfod â phobl a sgwrsio. Aeth yna i weithio i'r ysbyty ac yno y bu am bron i chwarter canrif. Roedd y gwaith hwnnw hefyd wrth ei bodd. Roedd cymdeithasu a dod i adnabod pobl yn ychwanegiad pwysig at y tasgau dyddiol ond yn yr ysbyt hefyd fe ddigwyddodd rhywbeth arall. Yno y cyfarfu â Haydn a thyfodd y gyfeillgarwch yn garwriaeth ac ymhen amser yn briodas a phrofodd y ddau ddedwyddwch hyd ei farwolaeth cynnar yn y flwyddyn 1992. Pethau cyffredin bywyd oedd yn golygu rhywbeth i Glenys a'r car bach yn gyfrwng i'w chludo at deulu ac o un caffi i'r llall. Yr oedd yn wraig ddedwydd, yn mwynhau gweu ac yn gefnogol i nifer o fudiadau. Yr oedd yn aelod yn y Tabernacl a bu'n ffyddlon i'r oedfaon ar hyd y blynyddoedd. Wedi'r uniad â Chapel y Morfa gwelodd yn dda i fynychu Ebeneser, yn un o bobl y seddi cefn, ac yno y bu hyd nes i gyflwr ei llygaid ddirywio a hithau o ganlyniad yn gorfod rhoi heibio'r gyrru. Yr oedd yn gymeriad ac yn ffrind da.


A.A. LISTED
R.A.C.
ESTABLISHED
1888
PHONE 452
WARD'S
(E. & A. EDWARDS)
CAFÉ
CATERERS and
CONFECTIONERS
GT. DARKGATE STREET
ABERYSTWYTH

Wedi cyfnod o salwch, bu farw'n dawel yn Ysbyty Tregaron a chydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu cyfan yn eu profedigaeth. Bu'r angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar yr 11eg o Ionawr dan ofal y Parchedig Eifion Roberts.

Makeover Y Morlan - cyfle i chi gyfrannu

Bydd y rheiny ohonoch a ymwelodd â Morlan yn ystod mis Ionawr wedi gweld bod gwaith mawr yn digwydd y tu ôl i sgriniau glas wrth i'r Bar Coffi gael *makeover*!

Arweiniodd amryw drafodaethau yn ystod 2015 at yr angen i greu gofod cynnes, croesawgar yn Y Morlan. Gofynnwyd, felly, i Iwan Jenkins a'r pensaer Stuart Ball gyflwyno rhai syniadau i'r pwyllgor rheoli. Plesiwyd y pwyllgor a dechreuwyd wedyn ar y broses o chwilio am gyllid.

Wedi sicrhau grant gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, clustnodwyd mis Ionawr ar gyfer cyflawni'r gwaith ac, wrth ysgrifenu'r pwt hwn, mae'n edrych yn debygol y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd y mis. Ni fydd y dodrefn i gyd yn eu lle erbyn hynny gan ein bod yn dal i chwilio am gyllid. Estynnwyn felly wahoddiad i fusnesau ac unigolion noddi cadair neu fwrdd neu i gyfrannu at gostau'r sgrîn ddigidol. Byddai unrhyw swm o gymorth; cysylltwch am wybodaeth bellach.

Pan ddowch yno'r tro nesaf fe sylwch y bydd y lle wedi'i drawsnewid yn llwyr! Mae'r nenfwd wedi'i ostwng a phren yn gorchuddio'r waliau; bydd goleuadau yn cael eu gosod i ychwanegu at y naws cynnes ynghyd â mainc gysurus a sgrîn ddigidol yn lle'r hysbysfwrdd.

Bydd y gofod yn parhau i gael ei ddefnyddio fel ag o'r blaen ond bydd modd ei ddefnyddio mewn ffyrdd gwahanol hefyd; mae rhai syniadau

eisoes ar y gweill ac mae'n siwr y daw syniadau eraill wrth ddechrau defnyddio'r gofod!

Mae'n gyffrous iawn! Ni fyddai dim o hyn yn bosib heb gefnogaeth a chymorth wrth gwrs. Rhaid diolch felly i Ymddiriedolaeth Pantyfedwen am y gefnogaeth ariannol ac i Iwan a Stuart am eu gwaith, eu hymroddiad a'u cyfraniad **aruthrol** at y prosiect. Mawr yw dyled Morlan iddynt.

Byddwn yn cynnal noson ym mis Mawrth i ddod â dathliadau'r dengmlwyddiant i ben ac i ddathlu'r datblygiad newydd hwn – cyfle i edrych yn ôl ond cyfle hefyd i edrych ymlaen i'r dyfodol.

Carol Jenkins

Iron MAM

Am 7.30, nos Wener, 26 Chwefror bydd cyfle i weld perfformiad theatrig arbennig yn y Morlan sydd wedi'i ysbrydoli gan y ffilmiau *Iron Man* ac sy'n archwilio'r cyswllt rhwng gemau fideo, rhyfela gydag adar angau a lladd o bell.

Ystyr MAM yw *military aged male*, sef dynion 18-29 oed yn ôl diffiniad llywodraeth y DU. Roedd y ffilm *Iron Man 3* yn arbennig o boblogaidd ymysg y grŵp oedran hwn yn 2013 ac i'r grŵp oedran hwn y mae Owl Young (yr awdur a'r perfformiwr) yn perthyn. Er bod Owl yn 'ddyn o oed milwrol' nid yw'n filwr, ond mae'n mwynhau chwarae gemau fideo, yn dipyn o *geek* a dweud y gwir.

Bu'n pendroni am hyn. Wrth edrych yn ôl dros ei blentyndod, ac ystyried y cyswllt rhwng technoleg, rhyfela a 'bod yn ddyn', mae'n

sylweddoli bod un cwestiwn yn codi na ellir ei osgoi: *a fyddai e'n defnyddio aderyn angau?*

Rhwng chwarae gyda milwyr tegan a rheoli'r sioe yn ddi-wifr trwy reolydd ei PlayStation, mae Owl yn crynhoi blwyddyn o ymchwil mewn awr o berfformiad hunangofiannol unigryw a gafaelgar.

Mae'r sioe wedi derbyn adolygiadau arbennig o dda felly peidiwch â cholli'r cyfle hwn i'w gweld. Dim ond £4 yw'r tocynnau ac maent ar werth yn swyddfa Morlan; nifer cyfyngedig o lefydd sydd felly y cyntaf i'r felin fydd hi …

Newyddion Ebeneser

Ar ddechrau blwyddyn newydd anfonwn ein cyfarchion a'n dymuniadau gorau i aelodau a chyfeillion Ebeneser gan gofio'n arbennig am y rhai sydd, oherwydd amgylchiadau, yn methu dod i'r gwasanaethau ar brynhawn Sul. Bu nifer yn yr ysbyty yn ystod cyfnod y Nadolig – Megan Evans, Mattie Shaw a Marina Kenyon ac mae eraill nad ydynt wedi bod yn hwylus yn ddiweddar. Yr ydym yn anfon ein cofion atoch ac yn dymuno adferiad iechyd i bob un ohonoch.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs. Glenys Davies, Coedlan Iorwerth. Bu'n mynychu'r gwasanaethau yn Ebeneser ac yn rhoi blodau yn y capel yn flynyddol. Cydymdeimlwn ag aelodau o deulu Glenys yn eu colled.

Diolch i'r rhai a fu'n trefnu a pharatoi'r te ar ôl y gwasanaeth y prynhawn Sul cyn y Nadolig. Gwerthfawrogwyd y te blasus a'r gymdeithas gynnes o amgylch y bwrdd.

Arddangosfa Llyfr y Cofio

Does dim llawer ohonon ni a fyddai'n gallu dweud yn syth pwy oedd Mrs Minnie James, Tongwynlais, ac efallai y bydden ni'n synnu o glywed ei bod hi wedi cael ei gwahodd i agor y Deml Heddwch yng Nghaerdydd, yng nghwmni'r Arglwydd Davies o Landinam, yn 1938. Ond roedd Mrs James yno i gynrychioli mamau Cymru, gan iddi golli tri mab yn y Rhyfel Mawr, 1914–1918. Yn ystod y blynyddoedd hyn, ganrif wedi'r Rhyfel, rydym yn cofio, yn meddwl am yr hyn a ddigwyddodd, y golled enbyd a'r dioddefaint, ac yn craffu o newydd ar yr hanes.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol newydd ddadorchuddio'r gyntaf o dair arddangosfa eleni sy'n gysylltiedig â'r cof am y Rhyfel Mawr. Y Deml Heddwch yw cartref Llyfr y Cofio, sef llyfr trwchus – trist o drwchus – lle y cofnodwyd mewn ysgrifen gain enwau'r 35,000 o filwyr o Gymru a laddwyd yn y Rhyfel, ac am y tro cyntaf erioed mae'r Llyfr wedi dod o'r Deml Heddwch i'w arddangos yma yn Aberystwyth. Mae'r Llyfrgell hefyd wedi digido'r llyfr cyfan, a gall ymwelwyr chwilio am enwau unigolion yn y fersiwn digidol. Rhoddir sylw yn ogystal i

aelodau o staff y Llyfrgell a ymunodd â'r Lluoedd yn ystod 1914–18; gwelir lluniau ohonynt a llythyrau ganddynt, sy'n dod â holl brofiad y Rhyfel yn fyw.

Mae'n briodol hefyd fod clawr y ddeiseb a anfonwyd gan wragedd o Gymru yn 1926 i wragedd America yn apelio ar i'r Unol Daleithiau ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd yn cael ei arddangos.

Dywedir bod gan y rhan fwyaf o deuluoedd ryw aelod neu aelodau a fu yn y Rhyfel. Mae'n briodol iawn i'r Llyfrgell gofio, gan i'r Llyfrgellydd, John Ballinger, golli ei fab hynaf ei hun yn y Rhyfel, a bu'r Arglwydd Davies, a oroesodd y Rhyfel Mawr ac a weithiodd yn ddygn dros heddwch a Chynghrair y Cenhedloedd ar ôl hynny, yn Llywydd y Llyfrgell yn yr union gyfnod yr agorwyd y Deml Heddwch. Mae rhai yn honni canfod ystyr mewn hanes, ond mae hanes hefyd yn beth cymhleth iawn. Mae'n amlwg fod llawer o'r bechgyn a aeth i ryfela yn credu'n ddidwyll yn yr achos, ac yn derbyn yr hyn a ddigwyddodd. Yr hyn a welwn ni heddiw yw trachwant cenhedloedd a ffolineb gwleidyddion a chadfridogion yn peri gwastraff aruthrol ar fywyd, a phoen i filiynau o deuluoedd. Beth bynnag yw'r gwersi rydym am eu dysgu, mae'r cofio'n dal yn holl bwysig.

Ac o feddwl am y cyfan rwy'n cael fy hun yn gweddïo gyda'r heddychwr T. Gwynn Jones:

Na chofia'n mawr wendidau mwy,
na maint eu holl ffolineb hwy ...

Rhidian Griffiths

@capelymorfa Cofiwch am Hwyl Hwyr yn ystod y tymor ysgol (nos Lun 3.45-5.00). Mwy o fanylion gan @EifionArthur Rob #capel y morfa

Cofiwch edrych ar wefan Capel y Morfa www.capelymorfa.org a beth am i chi ddilyn @capelymorfa ar twitter.

Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2016 - Cytûn Waunfawr.

Yn y llun gwelir rhai o'r bobl fu'n mynychu cyfarfod bore Gwener, 22 Ionawr, ynghyd â dau o arweinwyr cyfarfodydd yr wythnos, sef y Parch Adrian Pugh Williams a'r Tad Paul Joseph. Thema'r wythnos oedd 'Halen y ddaear'.

Trafod bod yn aelod...

Be ydi bod yn aelod? Be ydi gwerth bod yn aelod? Sut mae dod yn aelod? Faint mae o'n gostio? Mae na gant a mil o gwestiynau eraill hefyd. Bydd cyfle i bobl ifanc drafod ystyr bod yn aelod o Gapel y Morfa mewn sesiynau anffurfiol rhwng rwan a'r Pasg. Sgwrs a phaned fydd y drefn, cyfle i holi cyn dod i benderfyniad. Bydd croeso cynnes i bawb. Ceir mwy o wybodaeth gan John Roberts - johnminyfron@hotmail.co.uk

21 Chwefror, am 2.30 yn y Morlan
28 Chwefror am 2.30 yn y Morlan
6 Mawrth am 4 yn y Morlan
20 Mawrth am 2.30 yn y Morlan

Nadolig 2016

MDCU

Dod i Adnabod ...
Gareth Owen

'Llanuwchllyn,' meddai Gareth Owen, gan flasu'r gair a'i lygaid yn pefrio, 'mae na rywbeth yn y gair ei hun, mae'n edrych yn dda ar boster ac yn swnio'n dda. Dyna'r lle sydd wedi ffurfio pwy ydw i.'

Roedd ei arddangosfa *Llanuwchllyn* i'w gweld yn adeilad y Senedd yng Nghaerdydd tan yn ddiweddar. Mae Gareth Owen wedi cael tair arddangosfa yn y Morlan - *Cysgod y Capel*, *Tri yn Un* a'r ddiweddaraf oedd *Llanuwchllyn*. Bellach y mae ef a Nonna wedi setlo yn Aberystwyth, yng nghartref Nonna yng Nghoedlan Iorwerth. Fe anwyd Gareth yng Nghroesor. 'Er dwi ddim yn cofio hynny wrth gwrs,' ychwanegodd yn ddireidus. Yna mudodd y teulu i Wyddelwern, lle roedd ei dad Ifor Owen yn brifathro, cyn symud eto pan oedd Gareth yn chwech oed i Lanuwchllyn. Bu'r ddeg mlynedd a dreuliodd yn Llanuwchllyn yn bwysig iddo.

'Mae pawb yn disgwyl mod i'n medru canu ac yn cario telyn ar fy nghefn,' meddai wedyn, 'ond arlunydd oedd nhad ac yn arlunydd llawer iawn gwell na fi. Roedd yn olygydd *Hwyl* – y

comic – a dwi'n cofio fo'n gweithio ar fwrdd y gegin. Ond roedd nhaid yn arlunydd cystal bob tamaid. Roedd nhad yn cofio'i dad yntau yn gweithio ar lun wrth fwrdd y gegin. Felly ar un ystyr rydan ni'n deulu celfyddydol.'

Roedd hi'n syndod clywed fod ei frawd Meilir, llais cyfarwydd i bawb sydd â diddordeb mewn pêl-droed, wedi dechrau cwrs celf yn y coleg yng Nghasnewydd. Er nad yw ei chwaer Dyfir yn arddangos y diddordeb - mae ei merch Mari Gwent yn artist proffesiynol. Mae Elin merch Gareth a Nonna, er yn seiceiatrydd o ran proffesiwn, hefyd yn arlunio. Nid yw Gareth, er hynny, yn teimlo mai etifeddiaeth yw'r cyfan, 'Mae pobl gerddorol yn aml wedi eu magu yn sŵn cerddoriaeth a pheth tebyg sydd yn digwydd ym myd arlunio.'

Rhy'r arddangosfa Llanuwchllyn gipolwg ar gymuned fyrlymus y pentref. 'Mae'n nodwedd Gymreig amlwg fod pawb o bob cefndir ac oedran yn cymryd rhan yn y bywyd pentrefol. Roeddech chi'n gweld hynny yn neuadd y pentref. Roeddech chi'n dechrau pan yn blentyn yng nghanol y neuadd efo'ch mam, yna wrth fynd ychydig yn hŷn cael mynd efo'r plant eraill i'r seddi blaen. Ond erbyn cyrraedd oedran ysgol uwchradd roedd rhywun yn mynd i eistedd ar y silffoedd ffenestr yn yr ochr. Roedd o'n gyfnodau penodol, wedyn wrth dyfu'n blant drwg roeddech chi'n eistedd yn y cefn er mwyn medru sleifio allan. Yna pan oedd teulu yn cyrraedd roeddech chi nôl yn y canol.'



Yn yr arddangosfa y mae Gareth yn fwriadol iawn yn ceisio cuddio ei arddull. Mae'r amhersonol yn ei waith yn gwbwl fwriadol. Nid yw am i'w arddull ddod rhwng y gynulleidfa a'r cwestiynau y mae'n eu codi.

Mae Gareth yn cydnabod nad yw ei syniadaeth grefyddol yn dderbyniol. Mae'n gofyn cwestiynau mawr am ei ffydd ac eto mae na rywbeth yn ei gadw ac yn ei ddenu i gapel ac i'r Morlan. Roedd ganddynt ferch o'r enw Haf a fu farw ryw wyth mlynedd yn ôl yn ddeg ar hugain oed ond nid cwestiynau am ddioddefaint ac annhegwch bywyd sydd yn ei boeni.

'Dydw i ddim eisiau cyfathrebu'r galar yn gyhoeddus - mae'n lleihau dwysder y profiad o golli os ydw i'n gwneud ryw gelf am y peth,' meddai.

Ond mae Haf wedi bod yn gymorth i Gareth ddeall ei ffydd. Roedd Haf yn anabl ac wedi teithio amlwaith i Lourdes gyda grwpiau Catholig. Daeth yn gyfeillgar gyda Thad Pabyddol a fyddai'n aros gyda nhw ac wrth drafod amheuon fe ddywedodd wrth Gareth, 'You can live inside the questions.' Roedd hynny wedi rhoi bys ar rywbeth pwysig iawn i Gareth. Yn un o'r lluniau ac yn y gwaith oedd i'w weld yn yr oedfa yn y Morfa, ddydd Sul 24 Ionawr ma 'na farc cwestiwn yn hofran uwchben twll y cwpan cymun mewn sêt capel.

'Dwi ddim yn medru derbyn lot o bethau fel mae nhw yn cael eu dweud. Dwi wrth fy modd yn trafod cwestiynau ffydd a chrefydd,' meddai, 'dwi'n mwynhau y trafod ac eto mae'n rhaid fod na fwy iddo fo nag ymarferiad deallusol - mae 'na rywbeth mwy na hynny yn fan hyn. Eto weithiau mi fyddwn wrth fy modd yn gallu ymuno efo eglwys fel yr eglwys Babyddol, cael set o gredöau i'w derbyn, crefydd *ready made* ... ond mae fy natur i yn gwrthod hynny,' meddai.

'Delio efo syniadau ydw i yn fy ngwaith, does gen i ddim diddordeb mewn creu tirluniau, trafod syniad ydw i. Tydw i ddim yn creu lluniau sydd i aros, pethau dros dro ydyn nhw i sbarduno'r meddwl. '

Bu’n Gareth yn athro celf yn Ysgol Rhydfelen, wedyn yn Ysgol y Berwyn, Bala ac yna yn Ysgol y Creuddyn cyn mynd i weithio i’r adran addysg y Cynulliad. Felly mae wedi ymhél â dysgu celf ar hyd ei oes. Mae’n oedi am eiliad i feddwl cyn ateb y cwestiwn ai pleser creu ynteu pleser cyfathrebu mae o’n gael yn ei waith.

'Cyfathrebu,' yw’r ateb yn bendant iawn, 'i mi - y dweud sy’n bwysig, rhaid i safon y dweud fod yn dda wrth gwrs, ond y dweud sydd bwysicaf.'

Croeso mawr i Gareth a Nonna i'n plith.

Neges Blwyddyn Newydd y blaenoriaid ...

Ar Sul cyntaf y flwyddyn cyflwynodd Dai Alun Jones neges y blaenoriaid i'r eglwys yn ôl yr arfer. Yn ddigon naturiol dechreuodd drwy ddiolch i Eifion am ei waith drwy'r flwyddyn a'n hannog ninnau i'w gefnogi a gwerthfawrogi ei weinidogaeth. Cafodd amryw o ddigwyddiadau sylw hefyd:

- Suliau Stomp neu Llan Llanast
- dathlu deng mlynedd y Morlan
- apêl ysbyty Shilong, daeargryn Nepal, y banc bwyd, hospis yn y cartref a Chymorth Cristnogol
- dyfodiad y ddwy sgrîn sydd yn hwyluso paratoi oedfa
- y gwasanaethau wythnosol

Ond wrth edrych ymlaen at 2016 pwysleisiodd na allwn fyw yn y gorffennol rhaid trafod pa fath o eglwys yr hoffem fod - nid yn unig yn ein haddoliad ond yn yn ein hymwneud â'n gilydd ac ag eraill. Fel camau cyntaf anogwyd ni i fynychu oedfaon, cefnogi gweithgarwch, dod i adnabod ein gilydd a darllen *Perthyn* a'r wefan yn gyson a thrwy hynny gweddïo am fendith newydd ar ein gwaith.

Cofio Mr Ieuan James

Rhan o'r deyrnged a draddodwyd yn ei angladd yng Nghapel y Morfa ar Ionawr 21, 2016

Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i dalu teyrnged i Ieuan ac i gydnabod ei gyfraniad gwerthfawr mewn cynifer cylch.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Glenys ac â'r teulu cyfan - rhai ohonoch wedi teithio o bell i fod yma. Boed i chi dderbyn cysur o'ch ffydd chithau ac o ffydd Ieuan.

Rydym i gyd yn byw ein bywydau mewn amrywiol gylchoedd, ac roedd cylchoedd Ieuan a minnau'n cydredeg mewn sawl ffordd: roeddem yn gyd-flaenoriaid yn Seilo ac yna Capel y Morfa, roeddem ein dau yn gweithio yn y Brifysgol ac roeddem yn gymdogion agos.

Fel mae'r gynulleidfa hon yn tystio, roedd gan Ieuan ffydd dawel, gadarn ac ymrwymiad cryf i'w eglwys. Roedd ei gyfraniad i eglwys Seilo, i Gapel y Morfa, ac i'r enwad yn ehangach yn un nodedig a chlodwiw. Bu ynghlwm â gweinyddu'r eglwysi ar yr ochr ariannol am flynyddoedd - yn Ysgrifennydd Ariannol yn Seilo ac yna pan ffurfiwyd Capel y Morfa. Roedd Ieuan, yn ôl ei arfer, yr un mor deyrngar a gweithgar yn yr eglwys newydd ag yr oedd gynt yn Seilo, ac yn Gosen cyn hynny. Gosen, wrth gwrs, oherwydd fe'i magwyd yn Rhydyfelin, yr hynaf o chwech o blant. Bu hefyd yn Drysorydd yr Henaduriaeth a gwasanaethodd ar nifer o bwyllgorau yn ymwneud ag eiddo'r eglwysi a'r ochr ariannol - y cyfan yn adlewyrchiad clir o'i ymrwymiad.

Roedd ei ffyddlondeb i'r achos yn llwyr – nid yn unig i oedfaon y Sul ac yn ystod yr wythnos, ond i'r achos yn ei eglwys leol ac i dystiolaeth yr eglwys ehangach.

Yn hyn oll amlygwyd tair nodwedd arbennig - ac fe'u harddangoswyd ym mhopeth wnelai: roedd yn **ffyddlon**, yn **ddidwyll** ac yn **ddibynadwy**. Gallech ymddiried yn Ieuan gant y cant. Os oedd yn

cytuno gwneud rhywbeth gallech fod yn hollol sicr y byddai'n cwblhau'r dasg.

Amlygwyd y dair elfen yma yng ngwaith Ieuan yn y Coleg (fel yr oedd bryd hynny). Penodwyd ef i'r Swyddfa Gyllid, ac yno bu'n gweithio am 38 mlynedd tan ei ymddeoliad. Gallaf dystio i'r parch mawr oedd iddo ymysg ei gydweithwyr yn y swyddfa ac ymysg staff adrannau eraill. Byddai o hyd yn barod i roi cyngor, yn barod i fynd yr ail filltir i gynorthwyo ac o hyd yn driw i'w ddyletswyddau

Soniais am dri chylch. Y trydydd cylch oedd Erw Goch. Daethom i adnabod Ieuan a Glenys yn fuan iawn ar ôl symud i Aberystwyth ac roedd ein cartrefi mwy neu lai gefn wrth gefn. Cymdogion da a chyfeillgar - o hyd yn barod. Pe gwelai Ieuan rywbeth a allai fod o le byddai'n siŵr o roi caniad.

Rhoddodd Glenys ofal arbennig i Ieuan yng nghyfnod ei salwch. Wrth daro i mewn i'w weld yng nghartref Cwmcynfelin arferai, er ei salwch, o hyd fy holi am beth oedd yn digwydd yng Nghapel y Morfa ac hyd yn ddiweddar iawn roedd yn ddarllenydd cyson o'r *Goleuad*. Roedd yr eglwys yn ffocws i'w fywyd.

Roedd y profiadau hyn yn y misoedd diwethaf yn crynhoi cymeriad Ieuan - ffyddlon, didwyll a dibynadwy. Hoffwn feddwl am y rhain fel rhai o ffrwythau'r ysbryd.

Braint oedd adnabod Ieuan, a phleser oedd cydweithio gydag ef. Gwerthfawrogom ei gyfeillgarwch a diolchwn am ei fywyd. Gwelwn ei eisiau yn fawr; cofiwn ef gyda pharch ac edmygedd.

Noel Lloyd

@capelymorfa Cylch gweddi a choffi bob bore Mawrth am 10 a chyfarfod wythnosol bob nos Iau am 7.00. Croeso #capelymorfa

Cwis Y Morlan

Llongyfarchiadau mawr i dîm Capel y Morfa a fu'n fuddugol yng nghwis Y Morlan eleni.

Phil Davies oedd y cwisfeistr ac mae wedi anfon blas i ni o'r hyn a ofynnwyd. Gan fod Y Morlan yn dathlu'r deg roedd 'na nifer o gwestiynau am ddigwyddiadau yng Nghymru yn 2005/2006. Felly sut mae'ch cof?

1. Pwy oedd yr Archdderwydd?
2. Pwy Enillodd Llyfr y Flwyddyn yn 2005 am nofel yn ymwneud a bywyd teulu gwledig?
3. Enwch Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd.
4. Fersiwn Gymraeg pa gêm fwrdd enwog wnaeth ymddangos yn 2005?
5. Ym Mai 2005, pwy oedd y cyntaf i ddod yn Fardd

Cenedlaethol Cymru?
6. Pwy etifeddodd sedd Blaenau Gwent yn y Cynulliad Cenedlaethol oddi wrth ei gwr?
7. Pwy enillodd Cân i Gymru 2006 gyda 'Lili'r Nos'?
8. Cofiant i ba wleidydd (a fu farw yn 2005) a enillodd Llyfr y Flwyddyn 2006?
9. Pa logo, a grëwyd yn 1933, y rhoddwyd y gorau i'w ddefnyddio yn 2006?
10. Enwch y Cymro a'r Gymraes wnaeth serennu ar 'Big Brother' yn 2006.

Atebion.

1. Selwyn Iolen
2. Caryl Lewis am Martha, Jac a Shanco.
3. Peter Hain (hefyd yn Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon)
4. Scrabble
5. Gwyneth Lewis.
6. Trish Law
7. Ryland Teifi
8. 'Gwynfor: Rhag Pob Brad' gan Rhys Evans.
9. Triban Plaid Cymru the Party of Wales.
10. Glyn Wise ac Imogen Thomas

Y Banc Bwyd

Mae'r galw am wasanaeth y Banc Bwyd ar gynnydd, ac mae angen cymorth i ychwanegu at y stoc sydd yn y warws. Yn benodol mae angen:

Tuniau o datws

Tuniau o gig

Tuniau o lysiau

Tuniau o ffrwythau a phwdin reis

Papur tŷ bach

Siwgr

Gwerthfawrogir pob cymorth

@capelymorfa Ysgol Sul i'r plant (o bob oed) yn ystod y gwasanaeth bore am 10 ac i'r oedolion ar ôl yr oedfa. Pob croeso #capelymorfa

Cymdeithas y Morfa

7 Rhagfyr: A ninnau ar drothwy'r Nadolig cawsom noson gerddorol yng nghwmni Cantorion y Penrhyn, sef Glenys, Marianne, Rhidian, John Tudno ac Alun, dan arweiniad Elenid oedd hefyd yn cyfeilio. Trwy gyfrwng unawdau a deuawdau cawsom wledd o gerddoriaeth Nadoligaidd, gyda chyflwyniadau i'r caneuon, awduron a chyfansoddwyr, rhai ohonynt gyda chysylltiadau lleol, yn ychwanegu at ein mwynhad.

Ar ddiwedd y noson cafwyd paned a minspeis a baratowyd gan yr aelodau.

11 Ionawr: Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol cawsom gwis dan ofal y dybl-act poblogaidd Eirian a Menna. Gwyddem ymlaen llaw y byddai'n noson ddifyr, hwyliog a hwylus gyda thipyn o grafu pennau wrth geisio ateb y cwestiynau amrywiol, a'r cystadlu brwd yn baratoad da ar gyfer cwis blynyddol Morlan drennydd. Trefnwyd y gynulleidfa o gwmpas pedwar bwrdd ac eleni'r enillwyr oedd bwrdd y Cadeirydd, Huw Evans.

SWYDDOGAETHAU CHWEFROR 2016

Blaenor y Mis Bryn Roberts

Porthorion Ann Davies, Elvey MacDonald
Menai Lloyd Williams, Jean Lloyd Davies

Blodau'r Cysegr – Y Morfa
7 Elsbeth M. Lewis
14 Bethan Bryn
21 Gwen Jones
28 Eleri Davies

Blodau Ebeneser
7 Megan Morris
14 Llinos M. Hughes
21 Denise Morgan
28 Hilda Williams

Cynorthwywyr Llestri Cymun
7 Mary Turner, Hefina Davies-Wright, Elsbeth Lewis, Mary Thomas

Cynorthwywyr Ariannol
7 Brian Thomas a Dafydd Morgan Evans
14 Menna Evans a Hefin Jones
21 Megan Hughes a Catrin Griffiths
28 D. Meirion Jones a Beti Roberts

Tregerddan
28 Dan ofal Wyn Hughes a John Roberts

Cinio Bara Chaws
1 Chwefror – Canolfan St Paul rhwng 12.15 a 1.30, er budd Cymorth Cristnogol

Y Gymdeithas
Nos Lun, 1 Chwefror am 7.00 o'r gloch – Ffaith a Ffuglen gyda Dana Edwards

Nos Lun, 22 Chwefror am 7.00 o'r gloch – Dathlu Gŵyl Dewi yng Ngwesty'r Marine yng ngwmni Gerald Morgan

Gwasanaethau Chwefror 2016
10.00 a 5.00 yn y Morfa, 2.15 yn Ebeneser

7 Bugail (Cymun teulu yn y bore)
14 Y Parchedig John Tudno Williams
21 Bugail
28 Bugail

Clwb Hwyl Hwyr – bob nos Lun, 3.45-5.00 yn Festri'r Morfa
Cylch Gweddi a Choffi – bore Mawrth am 10.30 yn y Morlan
Cyfarfodydd wythnosol – nos Iau am 7.00 yn y Morlan

Golygyddion y mis hwn yw Sarah a John. Cyfraniadau rhifyn Mawrth i gyrraedd Sarah sarahminyfron@hotmail.com erbyn **19 Chwefror**, os gwelwch yn dda.

Atebion 'Pwy yw'r plant?'

Sharon Owen, Iwan Bryn James, Sian Eirug, Nerys Jones ac Amelia Davies

Gweddi

Tydi dilyn ddim yn hawdd

Arglwydd
gwn dy fod wedi atgyfodi o blith y meirw
a'th fod yn fyw yn y byd heddiw.
Gwn y dylwn gychwyn pob dydd
gyda chân yn fy nghalon,
ac y dylai pob Sul fod yn ddathliad llawen
o'th fuddugoliaeth;
ond tydi dy ddilyn di ddim yn hawdd.
Tydi hi ddim yn hawdd
rhoi ffydd ar waith yn fy mywyd.
Tydi hi ddim yn hawdd
dweud wrth bobl eraill amdanat.
Tydi hi ddim yn hawdd
deall beth yr wyt ti'n ei ddisgwyl oddi wrthyf.
Drwy'r cyfnodau anodd hyn
o deimlo'n aneffeithiol a di-werth,
gofynnaf i ti fy nerthu
i ddal ati yn dy waith,
nes i mi unwaith eto
glywed dy lais yn galw,
a theimlo dy bresenoldeb yn fy adenwyddu.

AMEN

Edmund Banyard, allan o *Amser i Dduw*, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts

Eurig Salisbury oedd Bardd y Mis yn Ionawr ar Radio Cymru ac mae ganddo bellach wefan ei hun - http://www.eurig.cymru - porwch ynddi er mwyn darganfod mwy o gerddi a hanes eu hysgrifennu.

Blwyddyn Newydd

Mae'r flwyddyn wedi'i geni
Yn hwyr y nos eleni.
A heddiw rhag *hangover* gwaeth
Am lymaid llaeth yn gweiddi
Mae teulu a chyfeillion
yn trydar eu cyfarchion,
Yn dod i gwrdd ar ddechrau dydd -
ei gilydd yn y galon.

Bydd eleni, taerwn ninnau
yn ddoethach er bob amau
Anwylach, callach, gwell ei gwedd
na llynedd ar ei gorau.
Er gwybod gwell, mae'r ysfa
heddychlon ar ei heitha.
A chlo ar iet hen winllan ddu
surfelys y rhyfela.
Mae'r flwyddyn er ei gwlyped
yn newydd o ddiniwed.
Mae iaith ein gobaith yn ei gwên,
Hi hen, eleni ganed.

Eurig Salisbury (trwy ganiatâd *BBC Radio Cymru*)

JOIO @MORLAN

15fed O CHWEFROR
10–4 O'R GLOCH

BE? DIWRNOD O HWYL

LLE? CANOLFAN Y MORLAN

PWY? PLANT BLWYDDYN 3 –6

DEWCH Â PHECYN BWYD

Pe baech yn hoffi sicrhau lle i'ch plentyn/plant, byddwch garediced â llanw'r ffurflen isod a'i anfon at Zoe Jones erbyn dydd Llun 8fed Chwefror (neu cyn gynted ag y bo modd).

JOIO@MORLAN

Hoffwn sicrhau lle i/ I would like to reserve a place for:

Enw/Name:

Cyfeiriad/Address:

Oedran/Age:

Enw'r Rhiant neu Warchodwr/Name of Parent or Guardian:

Rhif Ffôn/Telephone:

Dychweler y ffurflen i: : Zoe Jones , Menter Gobaith Stryd yr Efail Aberystwyth neu e-bostiwch/or e-mail:

zoejones34@gmail.com (01970 611510)

Menter Gobaith
Gogledd Ceredigion